# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

## 21 Mehefin, 2024

| | |
|---|---|
| TEITL: | Safonau'r Gymraeg: Hysbysiad Cydymffurfio Drafft |
| AWDUR: | Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR :

1.1. Cynghori'r Prif Weithredwr am unrhyw faterion y byddai'r CBC yn dymuno eu cynnwys yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ac i awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymateb i'r ymgynghoriad mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, gan gynnwys y materion a amlygwyd.

## 2. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

2.1. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi hysbysiad o ymgynghori ar Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft o dan Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (***Atodiad 1***). Mae'r hysbysiad cydymffurfio a'r safonau drafft wedi'u cynnwys yn ***Atodiad 2***. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn gyrff cyhoeddus a sefydlwyd gan Reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn atebol i gydymffurfio â safonau perthnasol yr Iaith Gymraeg ym meysydd darparu gwasanaethau, llunio polisi, gweithrediadau, hyrwyddo a chadw cofnodion. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ymateb i'r Safonau arfaethedig cyn cyhoeddi'r hysbysiad cydymffurfio ffurfiol.

2.2. Bu'r hysbysiad cydymffurfio drafft gael ei gyhoeddi ar 25 Mawrth, 2024 gyda chyfnod ymgynghori 12-wythnos yn dod i ben ar 21 Mehefin, 2024. Cytunwyd ar estyniad i ddyddiad cau y cyfnod ymgynghori gyda'r Comisiynydd, hyd nes 26 Gorffennaf. Mae copi o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad Adran 47 wedi'i gynnwys er gwybodaeth yn ***Atodiad 3***.

## 3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1. Yn dilyn cyflwyno'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 a diwygiadau i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 gall y Comisiynydd y Gymraeg osod safonau ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC).

3.2. Mae'r Comisiynydd wedi dechrau'r broses ymgynghori statudol o dan adran 47 o Fesur y Gymraeg sy'n rhoi amser i'r CBC ddarparu tystiolaeth i'r Comisiynydd os oes gan y CBC farn bod un neu fwy o'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad cydymffurfio drafft yn afresymol a/neu'n anghymesur.

3.3. Yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion penodol gyda'r safonau arfaethedig y mae angen i mi eu hamlygu.

## 4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

4.1 Bydd costau sy'n gysylltiedig â Safonau'r Gymraeg yn ymwneud ag amser swyddogion wrth sicrhau bod safonau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, unwaith y bydd hysbysiad cydymffurfio terfynol wedi'i osod, yn cael eu bodloni.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.1, mae cydymffurfio â safonau'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol i'r CBC fel corff cyhoeddus. Mae'r broses ymgynghori yn rhoi cyfle i'r CBC ymateb i'r safonau arfaethedig.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Safonau'r Gymraeg – ymgynghoriad ar hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Atodiad 2: | Hysbysiad Cydymffurfio Drafft – Adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
| Atodiad 3: | Ffurflen ymateb ymgynghoriad Adran 47 |

---

SYLWADAU’R SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae’r adroddiad yn gosod allan y gofynion sydd yn ynghlwm a’r broses statudol o osod Safon Iaith ar gyfer y CBC . Drwy’r ymgynghoriad yma mae modd rhoi sylwadau cyn i’r rhybudd cydymffurfiaeth gael ei gyhoeddi yn ffurfiol. Er fod modd apelio rhybudd o’r fath mae’r ymgynghoriad sydd gerbron yn rhoi cyfle i gyfleu unrhyw sylwadau ymlaen llaw i’w hystyried os oes awydd i wneud hynny.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Rwyf yn fodlon na fyddai gweithredu’r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol.”